**EITEM AR YR AGENDA: 16**

# AWDURDOD TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm gan y Pwyllgor Safonau.

### Cefndir

**2.** Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei weithgareddau yn ystod pob blwyddyn ariannol. At y diben hwn, cyfarfu'r Pwyllgor ar Chwefror 28ain 2007 i gytuno ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2006/07.

**3.** Felly, mae trydydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n ymwneud â'i weithgareddau rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007, ynghlwm er mwyn i'r aelodau ei ystyried.

### Argymhelliad

**4.** Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, ac yn nodi ei argymhelliad y bydd angen hyfforddiant ar y cod ymddygiad diwygiedig pan ddaw i rym.

**PWYLLGOR SAFONAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**1.** Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007.

**Aelodaeth**

**2.** Yn ystod 2006/07 bu newid yn aelodaeth y Pwyllgor. Wedi i'r Cynghorydd Sharon Frobisher gael ei phenodi i'r Panel Gweithredol, penodwyd y Cynghorydd Cliff Shone gan yr Awdurdod fel ei gynrychiolydd arall ar y Pwyllgor Safonau.

Felly, roedd aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Mr Chris Bretherton-Watt (cadeirydd)
Mr John Pollard YH (is-gadeirydd)
Mr Simon Fysh

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Gwilym O Williams
Y Cynghorydd Sharon Frobisher (hyd at Fedi 2006)
Y Cynghorydd Cliff Shone (ers Hydref 2006)

## Y Cyfarfodydd a Gynhaliwyd

**3.** Mae’r Pwyllgor yn ceisio cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, bob rhyw 6 mis fel arfer, neu’n amlach os yw’r busnes yn gofyn hynny. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cyfarfu’r Pwyllgor ar 2 achlysur: Hydref 2il 2006 a Chwefror 28ain 2007.

**4.** Roedd y presenoldeb fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Mr Chris Bretherton-Watt | 2/2 |
| Mr John Pollard YH | 1/2 |
| Mr Simon Fysh | 2/2 |
| Y Cynghorydd Sharon Frobisher | 0/0 |
| Y Cynghorydd Gwilym O Williams | 2/2 |
| Y Cynghorydd Cliff Shone | 1/2 |

**5.** Amcangyfrifir mai’r gost ychwanegol am weithgareddau’r Pwyllgor Safonau, yn cynnwys teithio a chynhaliaeth, argraffu, postio ayyb, yw ychydig dan £600 yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn.

## Y Materion a Drafodwyd

**6.** Mae’r Pwyllgor wedi trafod y materion canlynol:

### Ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddrafft

**7.** Cafodd crynodeb o ymateb y Pwyllgor i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ynghylch y “Newidiadau Arfaethedig i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001”, yn ôl yn Hydref 2005, ei adrodd i’r Awdurdod yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor ym Mawrth 2006.

**Ymgynghoriadau a deddfwriaeth ddrafft** *(parhad)*:

Felly, yn Chwefror 2006, cyhoeddwyd Offeryn Statudol "Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006" at ddiben ymgynghori. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch yr Offeryn Statudol drafft, cododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau, yn amrywio o faterion yn ymwneud â llunio'r Offeryn Statudol; maint unrhyw is-bwyllgorau a sefydlid gan Bwyllgorau Safonau; materion yn ymwneud â gofynion o ran cworwm i'r is-bwyllgorau hyn, a'r cyfyngiadau arfaethedig i gyfnod aelodau annibynnol a ailbenodir i wasanaethu ail gyfnod ar Bwyllgorau Safonau. Cyhoeddwyd yr Offeryn Statudol, oedd yn ganlyniad i hynny, gan Lywodraeth y Cynulliad ar Orffennaf 11eg 2006, a daeth i rym 3 diwrnod yn ddiweddarach, wedi i'r Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad ei gymeradwyo.

**Eitemau busnes eraill:**

**8.** Mae dwy eitem o fusnes wedi dod yn eitemau rheolaidd ar agenda fusnes y Pwyllgor, sef y Diweddaraf am Ddeddfwriaeth a Gwariant y Pwyllgor.

**Gwariant y Pwyllgor:** mae'r eitem hon yn ymwneud â gwariant y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol, ac yn rhoi dadansoddiad i'r aelodau o gostau'r Pwyllgor yn y meysydd canlynol - argraffu, postio, cyfieithu ar y pryd, costau teithio'r aelodau, cynhaliaeth a ffioedd cynadleddau.

**Y Diweddaraf am Ddeddfwriaeth:** mae'r Pwyllgor wedi cael gwybod am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y ddeddfwriaeth yr ymgynghorwyd ag ef yn ei chylch.

O safbwynt y Pwyllgor, da oedd nodi bod Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu cydnabod, yn ei Reoliadau Drafft ar Lwfansau i Aelodau, a gyhoeddwyd ddiwedd 2006, gyfraniad yr aelodau annibynnol drwy roi'r pŵer i awdurdodau dalu lwfans cyfetholai iddynt.

**Eitemau Busnes Eraill** *(parhad)***:**

**Gofynion o ran hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub:** ni chafodd unrhyw ofynion ychwanegol o ran hyfforddiant ynghylch y fframwaith moesegol eu nodi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau, nac ar gyfer aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn ystod y flwyddyn gyfredol. Fodd bynnag, nodwyd y bydd dyfodiad y Cod Ymddygiad Diwygiedig yn ystod 2007 yn gofyn am ddarparu hyfforddiant i'r holl aelodau ynghylch y newidiadau a ddaw gyda'r Cod diwygiedig.

Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda swyddogion monitro'r cynghorau cyfansoddol i weld sut maent yn bwriadu darparu hyfforddiant i'r cynghorwyr ynghylch y Cod Ymddygiad Diwygiedig - ai'r bwriad yw cynnal sesiynau hyfforddi yn ardaloedd pob un o'r awdurdodau unedol, ynteu ar y cyd gydag awdurdod neu awdurdodau eraill – a sicrhau y bydd yr hyfforddiant a ddarperir yn ymdrin â gofynion yr Awdurdod Tân ac Achub. Hefyd, ceisir cael caniatâd i aelodau annibynnol Pwyllgor Safonau yr Awdurdod Tân ac Achub fynychu unrhyw un o'r digwyddiadau hyn at ddiben hyfforddiant ar y Cod Diwygiedig iddynt hwy eu hunain.

**Cofnodion:** caiff cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau eu dosbarthu i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, er gwybodaeth.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

**9.** Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafodd unrhyw gŵyn ei gwneud yn erbyn cynghorwyr mewn perthynas â'u rôl fel aelodau o'r awdurdod tân ac achub. Felly, ni chafodd unrhyw fater ei gyfeirio i'r pwyllgor at ddiben ymchwiliad neu benderfyniad. Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd y sefyllfa ddymunol hon yn parhau.

**Gweithgareddau eraill y bu aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ymwneud â hwy**

10. **Cynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru:** mynychodd dau o aelodau'r Pwyllgor Safonau y Gynhadledd hon, a gynhaliwyd yn Aberaeron ar Fedi 22ain 2006. Mae'r Gynhadledd hon, sydd bellach yn un flynyddol, wedi ei phrofi ei hun yn fforwm defnyddiol iawn ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion da.

    Yn y Gynhadledd, mae aelodau Pwyllgorau Safonau yn cael cyfle i glywed a holi siaradwyr nodedig megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Panel Dyfarnu Cymru.

    O ganlyniad i adborth o'r Gynhadledd eleni, a gan randdeiliaid eraill, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi addo cyflwyno'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn 2007, yn hytrach na gohirio ei weithredu tan wedi etholiadau'r awdurdodau lleol yn 2008.

11. Yn anffodus, oherwydd ymrwymiadau eraill, nid oedd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi bod mewn sefyllfa i fynychu'r un o gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub na'r Panel Gweithredol yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

**Casgliad**

12. Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad hwn, ac y bydd angen hyfforddiant ynghylch y cod ymddygiad diwygiedig.

Mawrth 2007